Pêl-droed

Pob nos Lun ar ôl ysgol mae Mr Matthew Bishop, Swyddog Datblygu Pêl-droed yn cynnal sesiwn ymarfer sgiliau ar gyfer y plant. Mae croeso i blant o bob oedran a braf yw gweld cyn-gymaint o ddisgyblion yn cefnogir fenter.

Eisteddfod yr Urdd

Codi'n gynnar fu hanes criw y grŵp dawnsio gwerin fore Mercher, Mai 27 a throi eu gorwelion tuag at Bwllheli. Gadawodd y bws am 5.30 y bore ac ar ôl siwrne hwylus cyrhaeddwyd y rhagbrofion yn Ysgol Uwchradd Botwnog. Edrychai'r plant yn hyfryd yn eu dillad newydd a hoffem ddiolch o galon i Mrs Elizabeth Evans am eu gwneud. Ar ôl dawnsio, cafwyd diwrnod gwerth chweil yn mwynhau miri maes yr Eisteddfod. Da iawn chi blant am wneud eich gorau glas mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn.

Rygbi

Bu rhai o fechgyn a merched blwyddyn 6 yn chwarae rygbi mewn twrnament yn ddiweddar. Daeth y tîm yn gyntaf a byddant yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf. Llongyfarchiadau i Craig Marshall am ennill Crys-T go arbennig.

Traws gwlad yr Urdd

Ar gaeau Blaendolau bu llawer iawn o ddisgyblion yr ysgol yn rhedeg yng nghystadleuaeth yr Urdd. Braf oedd gweld cyn-gymaint ohonoch wedi mentro a da iawn chi am wneud mor dda.